**COFNODION O GYFARFOD IS BWYLLGOR CYLLID CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH A DROS ZOOM AM 10.00 O'R GLOCH Y BORE 1.7.26**

**YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Tegid John (Is-Gadeirydd), Martin Hughes

**PRESENNOL**
Cyng. James Maxwell (Cadeirydd), Reg Chapman, Giles Bentham, a'r Clerc

**COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Mai 27ain 2026 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
Eisiau nodi yn y cofnodion saesneg bod y Cyng. James Maxwell i lawr fel Is-Gadeirydd a nid Cadeirydd. 'Roedd y fersiwn cymraeg yn iawn.
Adroddodd y Clerc ei bod wedi cael pris o faint fyddai cynnwys seiber clir at y polisi yswiriant a cytunwyd i dalu hwn.
Datganwyd siom bod Cadeiryddion yr is-bwyllgorau eraill heb gael eu dewis.

**MATERION YN CODI**
**Cyllideb y Cyngor am y flwyddyn 2026/27**
Cafwyd drafodaeth ynglyn ar uchod a cytunwyd bod yr is-bwyllgor cyllid yn cymeradwyo y taliadau oedd wedi eu rhestru ar yr agenda i fyny hyd at y 27ain o fis diwethaf ag eu bod yn cael eu talu yn dilyn cyfarfod y Cyngor llawn ar y 6ed o'r mis hwn.

**Diweddariad Ariannol**
Cytunwyd bod yr uchod wedi cael ei drafod yn barod a bod y gyllideb yn iawn.

**Cyfraniad gan Gynghorwyr**
Nid oedd dim cyfraniad gan unrhyw Gynghorydd.

**ARWYDDWYD.......................................Cadeirydd DYDDIAD..............................................**